



Cyngor
Gwynedd

Strategaeth Llais y Plentyn



gwynedd.llyw.cymru

Ffôn: 01766 771000

Os hoffech gael y wybodaeth hon mewn unrhyw iaith neu ddiwyg arall,
e.e. print bras neu Braille, cysylltwch â'r Adran Addysg, Cyngor Gwynedd.

Cynnwys

Pam mae'r Strategaeth yn bodoli?	3
Beth yw'r weledigaeth hirdymor?	3
Ein saith addewid i blant a phobl ifanc	4
Y cefndir, yr heriau, a'r cyfleoedd	4
Beth sy'n gyrru'r angen am y Strategaeth nawr?	4
Egwyddorion sylfaenol Strategaeth Llais Y Plentyn	5
Beth a wnawn ni – a beth na wnawn ni	6
Gwreiddio Llais Y Plentyn yng ngwaith y Gwasanaeth Plant	7
Llais Y Disgybl mewn Ysgolion a Chynghorau Ysgol	8
Rôl Cyrff Llywodraethu	10
Taith y Llais: O Brofiad i Weithredu	11
Strwythur Corfforaethol Cyfranogiad a Llywodraethu	12
Integreiddio Llais Y Plentyn mewn trefniadau corfforaethol a phenderfynu	14
Blaenoriaethau Strategol	15
Atebolrwydd Corfforaethol a Goruchwyliaeth Strategol	16

Pam mae'r Strategaeth yn bodoli?

Mae Strategaeth Llais y Plentyn yn sefydlu fframwaith corfforaethol clir ar gyfer sicrhau bod hawliau, barn a phrofiadau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n ystyrlon ar benderfyniadau, polisiâu a gwasanaethau ar draws Cyngor Gwynedd. Er bod dyletswyddau a ddarpariaethau statudol cryf eisoes ar waith — gan gynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011, Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 — mae'r Strategaeth yn pwysleisio'r angen am drefniadau cyson a disgwyliadau sefydlog i sicrhau gweithredu llawn. Nid egwyddor foesol yn unig yw Llais y Plentyn, ond elfen graidd o lywodraethu ac o wneud penderfyniadau

Erthygl 12:

- 1. Rhaid i Barfion Gwladwriaethau sicrhau i'r plentyn sy'n gallu ffurfio ei farn ei hun hawl i leisio'r farn honno'n ddirwystr ym mhob mater sy'n effeithio arno, a bod pwys priodol yn cael ei roi ar farn y plentyn yn ôl ei oedran a'i aeddfedrwydd.**
- 2. At y diben hwn, rhaid rhoi cyfle i'r plentyn yn benodol i gael gwrandawriad mewn unrhyw weithdrefn farnwrol a gweinyddol sy'n effeithio arno, naill ai'n uniongyrchol, neu drwy gynrychiolydd neu gorff priodol, mewn modd sy'n gyson â rheolau gweithdrefnol y gyfraith genedlaethol.**

Beth yw'r weledigaeth hirdymor?

Y nod yw bod y Cyngor yn gweithredu'n gyson â dull sy'n seiliedig ar hawliau plant, gan wreiddio Llais y Plentyn ym mhob agwedd ar arweinyddiaeth, diwylliant, prosesau a systemau. Mewn sefydliad aeddfed, ystyrir hawl plant i gael eu clywed (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 12) fel egwyddor weithredol sy'n llywio cynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau. Disgwylir i'r dull hwn feithrin ac arwain at well penderfyniadau, gwasanaethau mwy ymatebol, ac ansawdd uwch o ran canlyniadau llesiant.

Ein saith addewid i blant a phobl ifanc

Mae'r addewidion hyn wedi'u llunio o eiriau a blaenoriaethau pobl ifanc. Byddant yn arwain y ffordd y mae'r Cyngor yn gwrando, yn gweithredu ac yn rhoi adborth.

1. **Mae gennych hawl i gael eich clywed.**
2. **Bydd eich llais yn dylanwadu, nid yn cael ei gasglu'n unig.**
3. **Bydd pawb yn cael cyfle, nid y rhai mwyaf hyderus yn unig.**
4. **Byddwn yn dweud wrthych beth wnaethom gyda'ch barn.**
5. **Bydd eich llais yn cyrraedd y bobl sy'n gwneud penderfyniadau.**
6. **Byddwn yn defnyddio dulliau sy'n addas i chi.**
7. **Bydd gwrando arnoch yn helpu i'ch cadw'n ddiogel a gwella eich llesiant.**

Bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl pa mor glir y gall plant a phobl ifanc weld bod eu barn wedi dylanwadu ar benderfyniad, gweithred neu esboniad, nid yn

Y cefndir, yr heriau, a'r cyfleoedd

Mae deddfwriaeth a fframweithiau polisi yng Nghymru yn gosod disgwyliadau clir ar awdurdodau lleol i wrando ar blant a rhoi sylw i'w hawliau. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pwysleisio gwneud penderfyniadau cynaliadwy ac ystyriol, tra bod Safonau Cyfranogiad Cenedlaethol yn cynnig meincnodau arfer da.

Er hynny, mae tystiolaeth o amrywiad sylweddol rhwng gwasanaethau, pwysau adnoddau a risg o dan-gynrychiolaeth plant ar y cyrion neu gyda phrofiadau cymhleth. Ar yr un pryd, mae cyfleoedd amlwg i gryfhau cysondeb, gwella ansawdd penderfyniadau a chodi aeddfedrwydd corfforaethol drwy ddefnyddio llais plant fel tystiolaeth strategol.

Beth sy'n gyrru'r angen am y Strategaeth nawr?

Mae cyfuniad o bwysau gweithredol, disgwyliadau statudol cynyddol a dysgu o arolygiadau ac adolygiadau ymarfer wedi tynnu sylw at risgiau sylweddol pan nad yw lleisiau plant yn cael eu clywed. Mewn cyd-destun o alw uwch ar wasanaethau cyhoeddus, mae perygl o weithredu anghyson heb gyfeiriad strategol cadarn. Mae'r strategaeth hon felly'n cynnig fframwaith i flaenoriaethu hawliau plant, dangos atebolrwydd a sicrhau gwelliant parhaus.

Egwyddorion sylfaenol Strategaeth Llais Y Plentyn

1. PLANT FEL DEILIAID HAWLIAU

Mae plant yn ddeiliaid hawliau llawn, gyda hawl statudol i gael eu barn wedi'i hystyried. Cydnabyddir eu statws nid fel derbynwyr gwasanaeth, ond fel unigolion y mae angen ymateb i'w lleisiau.

2. LLAIS Y PLENTYN FEL SAIL I ANSAWDD PENDERFYNIADAU

Mae profiadau byw plant yn elfen allweddol o wneud penderfyniadau gwybodus ac effeithiol. Disgwylir tystiolaeth glir o gyfraniad lleisiau plant i bob penderfyniad allweddol.

3. CYFRANOGIAD YSTYRLON

Mae cyfranogiad yn golygu bod plant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd gwirioneddol i fynegi eu barn, cyfrannu at drafodaethau, a dylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt. Mae'n sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed, eu gwerthfawrogi, a'u defnyddio i lywio cynllunio, darpariaeth, a gwelliant.

Dim ond pan fo cyfranogiad yn ddifffuant, eglur ei bwrpas ac yn arwain at ddylanwad gwirioneddol ystyrir ei fod yn briodol. Mae'n rhaid i blant ddeall pam eu bod yn cael eu holi ac yn cael adborth ar effaith eu cyfraniad.

4. CYNHWYSIANT A DIM GWAHANIAETHU

Mae gan bob plentyn hawl gyfartal i gael ei glywed, waeth beth fo'i gefndir, gallu neu brofiadau bywyd. Mae hyn yn cynnwys cymryd amser i ddeall anghenion, dewisiadau a safbwyntiau plant di-eiriau a phlant cyn-eiriau. Caiff dulliau cyfathrebu eu haddasu i ddiwallu anghenion y plentyn, nid i ffitio i arfer y gwasanaeth.

5. ATEBOLRWYDD, ADBORTH A THRYLOYWDER

Mae gwrando ar blant yn cynnwys dyletswydd i esbonio sut y defnyddiwyd eu barn, sut y gellid ei defnyddio, neu pam nad oedd modd gweithredu arni. Mae tryloywder yn rhan o barch a hawliau.

6. CYFRIFOLDEB CORFFORAETHOL AR DRAWS Y CYNGOR

Nid tasg un gwasanaeth yw Llais y Plentyn. Mae'n ofyniad corfforaethol sy'n berthnasol i bob swyddogaeth, gan adlewyrchu dyletswyddau statudol o dan ddeddfwriaeth Cymru.

7. GWRANDO FEL SAIL I DDIOGELU A LLESIANT

Mae deall profiad y plentyn yn ganolog i ddiogelu a hyrwyddo llesiant. Mae tystiolaeth yn dangos bod methu â chlywed llais plentyn yn ffactor risg difrifol.

Beth a wnawn ni – a beth na wnawn ni

Rydym yn:

- Gwrando'n bwrpasol ac yn ystyrlon ar blant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio o fewn fframwaith hawliau plant ac yn rhoi sylw dyledus i hawliau statudol.
- Defnyddio dulliau addas, hygyrch a chynhwysol i alluogi pob plentyn i fynegi barn.
- Sicrhau eglurder ynghylch pwrpas, dylanwad ac adborth mewn pob proses ymgysylltu.
- Dangos yn glir sut mae barn plant wedi llywio penderfyniadau, neu'n egluro pam nad yw newid yn bosibl.
- Datblygu'r gweithlu i wrando'n foesegol ac yn hyderus.
- Integreiddio Llais y Plentyn yn llawn yn systemau a phrosesau corfforaethol.
- Cynnwys plant, lle bo modd, yn y broses o wneud penderfyniadau, gan eu galluogi i gymryd rhan wrth ystyried opsiynau a llywio canlyniadau, yn hytrach na thrwy ymgynghoriadau untro yn unig.

Ni wnawn:

- Casglu barn plant heb bwrpas clir nac at ddibenion syml o gydymffurfio.
- Creu disgwyliadau neu addewidion nas gellir eu cyflawni.
- Trin cyfranogiad fel gweithgaredd arwynebol neu gyfrifoldeb un gwasanaeth.
- Eithrio unrhyw blentyn rhag cael ei glywed oherwydd cyd-destun neu amgylchiadau.
- Wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc heb roi ystyriaeth briodol i'w safbwyntiau a'u profiadau.
- Gorfodi plant i ailadrodd eu stori neu gymryd rhan mewn prosesau sy'n tanseilio eu diogelwch emosiynol.

Gwreiddio Llais Y Plentyn yng ngwaith y Gwasanaeth Plant

Mae Gwasanaeth Plant yn gweithredu ar y sail bod llais y plentyn yn elfen hanfodol o ymarfer proffesiynol effeithiol, diogelu a gwneud penderfyniadau o ansawdd uchel. Mae deall profiad byw'r plentyn yn ganolog i bob agwedd ar asesu, cynllunio, ymyrraeth ac adolygu, ac nid yw'n weithgaredd ar wahân nac yn atodiad i'r broses broffesiynol.

Bydd gweithwyr proffesiynol yn cymryd camau rhagweithiol a phriodol i sicrhau bod pob plentyn yn cael cyfle gwirioneddol i fynegi ei safbwyntiau, ei deimladau a'i brofiadau. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio dulliau cyfathrebu sy'n briodol i oedran, datblygiad, iaith, gallu ac anghenion unigol y plentyn, a darparu cyfleoedd i'r plentyn gael ei glywed mewn amgylchedd sy'n ddiogel, yn gefnogol ac yn rhydd rhag pwysau amhriodol.

Bydd llais y plentyn yn cael ei gasglu, ei gofnodi a'i ddefnyddio'n systematig fel rhan o:

- **unrhyw ymchwiliad i honiadau yn erbyn person mewn sefyllfa o ymddiriedaeth;**
- **asesiadau llesiant a risg;**
- **cynlluniau gofal a chymorth;**
- **cyfarfodydd a chynadleddau aml asiantaeth;**
- **adolygiadau statudol;**
- **a phob penderfyniad sy'n effeithio ar fywyd, diogelwch a llesiant y plentyn.**

Bydd cofnodion proffesiynol yn dangos yn glir beth yw safbwynt y plentyn, sut y cafodd ei gasglu, a sut mae'r safbwynt hwn wedi cael ei ystyried wrth wneud penderfyniadau. Lle nad yw'n bosibl gweithredu ar ddewis neu ddymuniad y plentyn, bydd esboniad clir, gonest ac addas i'w oedran yn cael ei roi, a bydd hyn yn cael ei gofnodi'n briodol.

Mae cyfrifoldeb ar weithwyr proffesiynol i sicrhau nad yw llais y plentyn yn cael ei gymryd yn ganiataol nac yn cael ei hidlo'n anghymesur drwy ddehongliad oedolion. Lle bo'n briodol, bydd y plentyn yn cael cymorth i fynegi ei hun, gan gynnwys defnyddio eiriolaeth annibynnol, dulliau cyfathrebu amgen, neu gymorth gan weithwyr proffesiynol sydd â pherthynas ymddiriedus â'r plentyn.

Bydd rheolwyr yn darparu goruchwyliaeth broffesiynol effeithiol i sicrhau bod llais y plentyn yn elfen weladwy ac o ansawdd uchel o fewn ymarfer. Bydd hyn yn cynnwys adolygu cofnodion, archwilio penderfyniadau, a herio ymarfer lle nad yw safbwyntiau'r plentyn wedi'u hystyried yn ddigonol neu wedi'u cofnodi'n glir.

Yn ogystal, bydd adborth, cwynion, canmolïaeth a chyfraniadau ehangach gan blant a phobl ifanc yn cael eu defnyddio'n systematig i lywio gwerthuso a gwelliant gwasanaethau. Bydd y Gwasanaeth Plant yn gallu dangos sut mae profiadau a safbwyntiau plant wedi cyfrannu at ddatblygu ymarfer, gwella darpariaeth a chryfhau ansawdd gwasanaethau.

Trwy'r trefniadau hyn, bydd llais y plentyn yn cael ei wreiddio fel egwyddor weithredol sylfaenol o fewn diwylliant, systemau ac ymarfer y Gwasanaeth Plant, gan sicrhau bod pob plentyn yn cael ei glywed, ei barchu, a'i ystyried fel unigolyn canolog yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar ei fywyd.

Llais Y Disgybl mewn Ysgolion a Chynghorau Ysgol

Mae ysgolion yn gweithredu ar y sail bod llais y disgybl yn elfen graidd o addysg effeithiol, llesiant cadarnhaol ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel. Mae gan bob disgybl hawl i gael ei glywed mewn materion sy'n effeithio ar ei brofiad addysgol, ei lesiant a'i ddatblygiad personol, ac mae'r hawl hon yn cael ei gwireddu drwy drefniadau systematig, cynhwysol ac ystyrlon.

Bydd ysgolion yn sicrhau bod cyfleoedd rheolaidd, hygyrch a phriodol ar gael i ddisgyblion fynegi eu barn, eu safbwyntiau a'u profiadau. Bydd hyn yn cynnwys cyfuniad o strwythurau ffurfiol ac anffurfiol, megis Cynghorau Ysgol, arolygon disgyblion, trafodaethau dosbarth, grwpiau ffocws a dulliau eraill sy'n briodol i oedran, gallu ac anghenion disgyblion.

Bydd Cynghorau Ysgol yn gweithredu fel mecanwaith cynrychiolaethol ffurfiol sy'n galluogi disgyblion i gyfrannu at drafodaethau a phenderfyniadau sy'n effeithio ar fywyd yr ysgol. Bydd ysgolion yn sicrhau bod Cynghorau Ysgol:

- yn gynrychioliadol o amrywiaeth y corff disgyblion;
- yn gweithredu mewn modd strwythuredig, rheolaidd ac effeithiol;
- yn cael cyfleoedd gwirioneddol i ddylanwadu ar benderfyniadau perthnasol;
- ac yn derbyn adborth clir ar effaith eu cyfraniad.

Yn ogystal â'r strwythurau sicrhau cynrychiolaeth yma, bydd ysgolion yn sicrhau bod disgyblion yn cael eu cynnwys yn uniongyrchol mewn penderfyniadau unigol sy'n effeithio arnynt, yn unol â disgwyliadau statudol a'r egwyddor o barchu hawliau plant. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i gyfrannu at benderfyniadau sy'n ymwneud â'u hanghenion dysgu ychwanegol, eu cefnogaeth, eu llesiant a phrosesau ffurfiol megis gwaharddiadau, gan sicrhau bod eu safbwyntiau'n cael eu hystyried yn briodol. Yn ogystal, bydd ysgolion yn darparu ystod eang o gyfleoedd cyfranogiad pellach drwy grwpiau a mentrau megis grwpiau eco, grwpiau llesiant, mentrau cymorth cymheiriaid a grwpiau gweithredu eraill, gan alluogi disgyblion i gyfrannu'n weithredol at ddatblygu a gwella eu hysgol a'u cymuned.

Bydd arweinwyr ysgol yn sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei integreiddio'n llawn o fewn trefniadau arweinyddiaeth, hunanwerthuso a chynllunio gwelliant. Bydd hyn yn cynnwys defnyddio safbwyntiau disgyblion fel ffynhonnell dystiolaeth wrth:

- werthuso ansawdd addysgu a dysgu;
- asesu llesiant ac ymdeimlad o berthyn;
- nodi cryfderau a meysydd ar gyfer datblygu;
- a llywio blaenoriaethau a chamau gweithredu gwella ysgol.

Bydd ysgolion yn gallu dangos yn glir sut mae safbwyntiau disgyblion wedi cael eu hystyried ac, lle bo'n briodol, wedi dylanwadu ar benderfyniadau, polisiau ac arferion. Lle nad yw'n bosibl gweithredu ar safbwyntiau disgyblion, bydd esboniad clir, rhesymol ac addas i'w hoedran yn cael ei roi.

Bydd sylw penodol yn cael ei roi i sicrhau bod disgyblion sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth—gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion bregus, neu'r rhai sy'n llai hyderus—yn cael cyfleoedd priodol a chefnogol i gael eu clywed. Bydd ysgolion yn cymryd camau rhagweithiol i ddileu rhwystrau i gyfranogiad ac i sicrhau cynhwysiant llawn.

Bydd cyrff llywodraethu yn chwarae rhan allweddol wrth sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried fel rhan o'u rôl goruchwyllo a sicrhau ansawdd. Bydd hyn yn cynnwys derbyn a chraffu ar dystiolaeth o gyfranogiad disgyblion, a sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i alluogi disgyblion i gyfrannu at werthuso a datblygu'r ysgol.

Trwy'r trefniadau hyn, bydd llais y disgybl yn cael ei wreiddio fel elfen weladwy ac ystyrion o ddiwylliant, arweinyddiaeth a gweithrediad yr ysgol, gan sicrhau bod disgyblion yn cael eu cydnabod fel cyfranogwyr gweithredol mewn siapio eu profiad addysgol a'u hamgylchedd dysgu.

Rôl Cyrff Llywodraethu

Mae cyrff llywodraethu yn chwarae rôl strategol allweddol wrth sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei gydnabod, ei barchu a'i integreiddio'n llawn o fewn arweinyddiaeth, llywodraethu a gweithrediad unrhyw ysgol. Fel rhan o'u cyfrifoldebau statudol dros sicrhau ansawdd addysg, llesiant disgyblion ac effeithiolrwydd arweinyddiaeth, bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod trefniadau cadarn ac effeithiol ar waith i alluogi disgyblion i fynegi eu safbwyntiau a dylanwadu ar benderfyniadau perthnasol.

Bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod aelod dynodedig â chyfrifoldeb clir dros hawliau plant, gan gynnwys hyrwyddo a goruchwyllo gweithrediad hawliau Erthygl 12, a sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried yn systematig fel rhan o drefniadau llywodraethu, sicrwydd a gwelliant yr ysgol.

Bydd cyrff llywodraethu yn darparu goruchwyliaeth strategol o'r trefniadau sydd ar waith i gasglu, ystyried a defnyddio llais y disgybl. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod arweinwyr ysgol yn gallu dangos tystiolaeth glir o sut mae safbwyntiau disgyblion wedi cael eu hystyried wrth werthuso darpariaeth, datblygu polisiau a gosod cyfeiriad strategol yr ysgol.

Disgwylir i gyrff llywodraethu sicrhau bod llais y disgybl yn cael ei ystyried fel ffynhonnell dystiolaeth berthnasol a gwerthfawr wrth gyflawni eu swyddogaethau craidd, gan gynnwys:

- **monitro ac adolygu perfformiad a llesiant disgyblion;**
- **gwerthuso effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth;**
- **craffu ar bolisiau a threfniadau sy'n effeithio ar brofiad disgyblion;**
- **a chyfrannu at brosesau hunanwerthuso a chynllunio gwelliant yr ysgol.**

Bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod cyfleoedd priodol ar gael i glywed yn uniongyrchol gan ddisgyblion, lle bo'n briodol, gan gynnwys drwy ymgysylltu â chynrychiolwyr Cyngor Ysgol a drwy dderbyn adroddiadau rheolaidd ar weithgarwch a blaenoriaethau'r disgyblion.


Bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod arweinwyr ysgol yn darparu adborth clir i ddisgyblion ar sut mae eu safbwyntiau wedi cael eu defnyddio, gan gryfhau tryloywder, parch ac atebolrwydd. Lle nad yw'n bosibl gweithredu ar safbwyntiau disgyblion, bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod rhesymau clir a phriodol yn cael eu darparu.

Fel rhan o'u rôl sicrwydd, bydd cyrff llywodraethu yn herio ac yn cefnogi arweinwyr ysgol i sicrhau bod cyfranogiad disgyblion yn ystyrlon, yn gynhwysol ac yn cael effaith weladwy ar fywyd a datblygiad yr ysgol. Bydd hyn yn cynnwys rhoi sylw penodol i sicrhau bod pob disgybl, gan gynnwys y rhai sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth, yn cael cyfle cyfartal i gael ei glywed.

Trwy gyflawni'r cyfrifoldebau hyn, bydd cyrff llywodraethu yn sicrhau bod llais y disgybl yn elfen annatod o lywodraethu effeithiol, gan gyfrannu at well penderfyniadau, cryfhau atebolrwydd, a sicrhau bod yr ysgol yn ymatebol i anghenion a phrofiadau ei disgyblion.

Taith y Llais: O Brofiad i Weithredu

Bydd pob llwybr cyfranogiad yn dilyn proses gyson, syml a gweladwy:



Ar ddechrau'r broses, dylai plant a phobl ifanc wybod pwrpas y gweithgaredd, pwy fydd yn gwrando, beth all newid a phryd y cânt ddiweddariad. Bydd diweddariad yn cael ei roi hyd yn oed pan nad oes penderfyniad terfynol, a bydd yr ymateb terfynol yn defnyddio'r dull "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd".

Blaenoriaethau a osodir gan bobl ifanc

Bydd plant a phobl ifanc yn gosod rhan o agenda flynyddol y trefniadau cyfranogiad. Bydd themâu cychwynnol y gweithdy yn cynnwys trafndiaeth a chludiant ysgol, mannau chwarae a mannau gwyrdd, llesiant, addysg ac adnoddau ysgolion, cyfleoedd gwledig, yr economi leol a'r amgylchedd. Bydd y blaenoriaethau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan bobl ifanc eu hunain.

Strwythur Corfforaethol Cyfranogiad a Llywodraethu

Er mwyn sicrhau dull cyson, cynhwysol a chynaliadwy o weithredu Llais y Plentyn ar draws Cyngor Gwynedd, defnyddir model corfforaethol strwythuredig sy'n cynnwys tair ffrwd gyfranogiad gyd gysylltiedig: Addysg, Gwasanaeth Ieuencid a Gwasanaethau Eraill. Darperir mecanwaith clir a ffurfiol drwy'r model hwn i gasglu, cynrychioli a throsglwyddo barn plant a phobl ifanc o lefel leol i lefel strategol, gan sicrhau bod eu lleisiau yn llywio penderfyniadau, cynllunio a darparu gwasanaethau.

Ffrwd Addysg

Drwy'r ffrwd Addysg, gall disgyblion leisio eu barn drwy strwythurau sefydledig megis Cyngorau Ysgol a fforymau disgyblion. Mae'r trefniadau hyn yn galluogi disgyblion i gyfrannu at benderfyniadau sy'n effeithio ar eu profiadau dysgu, eu llesiant a'u hamgylchedd ysgol. Trosglwyddir y safbwyntiau hyn drwy strwythurau lleol, rhanbarthol a sirol, gan sicrhau bod llais y disgybl yn cyfrannu at gynllunio a gwella addysg ar draws y sir.

Ffrwd y Gwasanaeth Ieuencid

Cyfleoedd i gyfrannu drwy glybiau ieuencid, prosiectau cymunedol a fforymau ieuencid a ddarperir drwy'r ffrwd hon, gan alluogi pobl ifanc i leisio eu barn ar faterion sy'n effeithio ar eu bywydau a'u cymunedau. Sicrheir cynrychiolaeth o ystod eang o bobl ifanc, gan gynnwys y rhai nad ydynt efallai'n ymgysylltu drwy addysg ffurfiol. Mae'r ffrwd hon yn cefnogi datblygiad pobl ifanc fel cyfranogwyr gweithredol ac yn sicrhau bod eu profiadau yn llywio datblygiad gwasanaethau.

Ffrwd Gwasanaethau Corfforaethol Eraill

Drwy'r ffrwd hon, sicrheir bod barn plant a phobl ifanc sy'n ymwneud â gwasanaethau corfforaethol ehangach—gan gynnwys gwasanaethau gofal, llesiant a chymunedol—yn cael ei chasglu a'i defnyddio'n systematig. Mae hyn yn sicrhau bod profiadau byw plant a phobl ifanc yn cyfrannu at gynllunio, darparu a gwerthuso gwasanaethau ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.

Integreiddio a Llywodraethu Strategol

Daw'r tair ffrwd ynghyd ar ffurf Fforwm Ieuencid Gwynedd, sy'n darparu mecanwaith llywodraethu cydnabyddedig i sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn cael eu cyflwyno'n uniongyrchol i arweinwyr, rheolwyr a'r rhai sydd yn gwneud penderfyniadau strategol y Cyngor.

Rhan annatod o'r strwythur hwn yw cyfranogiad aelodau etholedig, sydd ar wahoddiad yn eistedd ar Fforwm Ieuenctid Gwynedd ac yn darparu cyswllt democrataidd uniongyrchol rhwng pobl ifanc a'r rhai sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau. Trwy'r trefniant hwn, gwrandewir yn uniongyrchol ar leisiau plant a phobl ifanc wrth lywio polisi, gosod blaenoriaethau a gwneud penderfyniadau strategol, gan gryfhau atebolrwydd corfforaethol a sicrhau integreiddio llawn Llais y Plentyn o fewn strwythurau llywodraethu'r Cyngor.

Yn ei gyfanrwydd, mae'r model yn sicrhau bod Llais y Plentyn yn elfen systematig ac integredig o lywodraethu corfforaethol, wedi'i wreiddio fel egwyddor weithredol ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor.

Y berthynas rhwng Fforwm Ieuenctid Gwynedd a'r Cabinet Pobl Ifanc

Bydd Fforwm Ieuenctid Gwynedd yn parhau fel y prif fecanwaith sirol eang ar gyfer casglu, trafod a blaenoriaethu lleisiau o'r tair ffrwd. Bydd y Cabinet Pobl Ifanc yn grŵp gweithredol cynrychioliadol o fewn y Fforwm, gyda'r rôl o gyflwyno'r blaenoriaethau a gytunwyd yn uniongyrchol i uwch arweinwyr, aelodau etholedig a'r strwythurau penderfynu perthnasol.

Bydd y Cabinet yn cynnwys cynrychiolaeth ddaddearyddol ac ystod o brofiadau. Caiff cyfrifoldebau eu rhannu, gan gynnwys trefniadau dirprwyo, fel nad yw'r pwysau'n disgyn ar un person. Bydd yn cyfarfod yn rheolaidd ac yn adrodd yn ôl i'r Fforwm ac i'r bobl ifanc a gynrychiolir ganddo.

Integreiddio Llais y Plentyn mewn Trefniadau Corfforaethol a Phenderfynu

Bydd Cyngor Gwynedd yn gweithio i sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisiau, strategaethau a gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol arnynt.

I gefnogi hyn, bydd y Cyngor yn:

- **sicrhau bod safbwyntiau plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rhai a fynegir drwy drefniadau cyfranogiad perthnasol, yn cael eu hystyried wrth ddatblygu polisiau, strategaethau a gwasanaethau sy'n effeithio'n uniongyrchol ar blant a phobl ifanc;**
- **annog gwasanaethau i nodi, lle bo'n briodol ac yn gymesur, sut y mae safbwyntiau plant a phobl ifanc wedi llywio cynigion neu benderfyniadau sy'n effeithio arnynt;**
- **hwyluso cyfleoedd i safbwyntiau plant a phobl ifanc gael eu rhannu â'r trefniadau democrataidd a llywodraethu perthnasol pan fo hynny'n berthnasol i'r materion sy'n cael eu hystyried;**
- **sicrhau bod adborth priodol yn cael ei ddarparu i blant a phobl ifanc ynghylch sut y cafodd eu safbwyntiau eu hystyried a sut y cyfrannodd eu mewnbyn at ddatblygu polisiau, gwasanaethau neu weithgareddau;**
- **sicrhau bod trefniadau cyfranogiad plant a phobl ifanc yn cyd-fynd â fframwaith ehangach y Cyngor ar gyfer cyfranogiad ac ymgysylltu â dinasyddion, gan osgoi dyblygu a hyrwyddo egwyddorion cyffredin o gyfranogiad ystyrion.**

Drwy'r trefniadau hyn, bydd Llais y Plentyn yn cael ei wreiddio'n ffurfiol o fewn systemau a phrosesau corfforaethol y Cyngor, gan sicrhau ei fod yn rhan annatod o lywodraethu, atebolrwydd a gwneud penderfyniadau strategol.

Blaenoriaethau Strategol

Er mwyn symud o ddisgwyliadau ac egwyddorion at weithredu cyson ac aeddfed ar draws y Cyngor, bydd y strategaeth hon yn canolbwyntio ar gryfhau'r meysydd canlynol:

Sicrhau cysondeb corfforaethol ar draws pob gwasanaeth

Er bod arferion cadarn eisoes yn bodoli, bydd y Cyngor yn cryfhau cysondeb er mwyn sicrhau bod llais y plentyn yn cael ei ystyried yn systematig ar draws pob gwasanaeth, nid mewn rhai meysydd yn unig. Bydd hyn yn lleihau amrywiad ac yn sicrhau dull corfforaethol clir a chyson.

Cryfhau'r cysylltiad rhwng cyfranogiad a gwneud penderfyniadau strategol

Bydd y Cyngor yn sicrhau bod lleisiau plant a phobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ac yn weladwy ar benderfyniadau strategol, cynllunio gwasanaethau a gosod blaenoriaethau, gan symud o gyfranogiad fel gweithgaredd at gyfranogiad fel dylanwad.

Sicrhau bod pob plentyn, yn enwedig y rhai sydd mewn sefyllfaoedd bregus, yn cael eu clywed

Bydd ffocws penodol ar gryfhau cyfleoedd i glywed lleisiau plant sydd mewn perygl o dan-gynrychiolaeth neu sydd â phrofiadau cymhleth, gan sicrhau cynhwysiant llawn a theg.

Cryfhau atebolrwydd a'r gallu i ddangos effaith

Bydd y Cyngor yn cryfhau trefniadau i ddangos yn glir sut mae barn plant wedi llywio penderfyniadau a gwasanaethau, gan sicrhau tryloywder, dysgu sefydliadol a gwelliant parhaus.

Datblygu gallu sefydliadol a diwylliant cynaliadwy

Bydd y Cyngor yn parhau i ddatblygu gallu'r gweithlu, arweinyddiaeth a systemau er mwyn sicrhau bod gwrando ar blant yn rhan arferol, gynaliadwy ac annatod o ddiwylliant sefydliadol.

Atebolrwydd Corfforaethol a Goruchwyliaeth Strategol

Mae atebolrwydd clir yn hanfodol er mwyn sicrhau bod egwyddorion y strategaeth hon yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn effeithiol ar draws y Cyngor.

Bydd goruchwyliaeth strategol o weithrediad y strategaeth yn cael ei darparu, a fydd yn:

- **derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd a gweithredu'r strategaeth;**
- **monitro effeithiolrwydd trefniadau cyfranogiad plant a phobl ifanc;**
- **nodi risgiau, bylchau neu anghysondebau mewn gweithredu;**
- **sicrhau bod camau priodol yn cael eu cymryd i gryfhau ymarfer lle bo angen.**

Bydd Penaethiaid Adran a rheolwyr perthnasol yn gyfrifol am sicrhau bod egwyddorion y strategaeth hon yn cael eu gweithredu o fewn eu meysydd cyfrifoldeb, a bod tystiolaeth briodol o hyn yn cael ei chofnodi a'i hadrodd drwy drefniadau corfforaethol sefydledig.

Bydd aelodau etholedig yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu her, sicrwydd ac atebolrwydd democrataidd mewn perthynas â gweithredu'r strategaeth. Bydd adroddiad blynyddol ar weithrediad y Strategaeth a chynnydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet fel rhan o drefniadau atebolrwydd a goruchwyliaeth y Cyngor

Gweithredu a Chynllunio

Er mwyn cefnogi gweithrediad effeithiol y strategaeth hon, bydd Cynllun Gweithredu corfforaethol yn cael ei ddatblygu a'i gynnal.

Bydd y Cynllun Gweithredu yn:

- **nodi camau gweithredu clir, amserlenni a chyfrifoldebau;**
- **cefnogi gweithredu cyson ar draws pob gwasanaeth perthnasol;**
- **sicrhau bod gweithredu'n realistig, yn gymesur ac yn gynaliadwy;**
- **galluogi monitro cynnydd a nodi meysydd ar gyfer gwelliant pellach.**

Bydd y Cynllun Gweithredu yn cael ei adolygu'n rheolaidd gan er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn ymatebol i anghenion y Cyngor a phlant a phobl ifanc.

Monitro, Gwerthuso a Sicrwydd

Bydd trefniadau monitro ffurfiol yn cael eu sefydlu er mwyn sicrhau bod gweithrediad y strategaeth hon yn cael ei werthuso'n systematig ac yn dryloyw.

Bydd hyn yn cynnwys:

- **datblygu dangosyddion priodol i asesu gweithrediad ac effaith y strategaeth;**
- **casglu a dadansoddi tystiolaeth berthnasol, gan gynnwys adborth gan blant a phobl ifanc, gweithwyr proffesiynol a strwythurau llywodraethu;**
- **nodi meysydd o gryfder ac unrhyw feysydd lle mae angen cryfhau gweithredu ymhellach;**
- **defnyddio canfyddiadau monitro i lywio gwelliant parhaus ar draws y Cyngor.**

Bydd sicrwydd corfforaethol mewn perthynas â gweithrediad y strategaeth yn cael ei ddarparu.

Adrodd a Thryloywder

Er mwyn sicrhau atebolrwydd a thryloywder, bydd adroddiadau cynnydd ar weithrediad y Strategaeth Llais y Plentyn yn cael ei baratoi.

Bydd yr adroddiad hwn yn:

- **crynhai cynnydd yn erbyn blaenoriaethau a chamau gweithredu perthnasol;**
- **amlinellu tystiolaeth o effaith ar bolisiau, penderfyniadau a gwasanaethau;**
- **nodi unrhyw heriau neu risgiau perthnasol;**
- **amlinellu camau pellach i gryfhau gweithredu.**

Lle bo'n briodol, bydd gwybodaeth am weithrediad y strategaeth hefyd yn cael ei rhannu â phlant a phobl ifanc drwy strwythurau cyfranogiad sefydledig, gan sicrhau tryloywder ac adborth ystyrlon.

Safon Adborth ac Adrodd

Bydd pob mater sy'n symud ymlaen drwy'r trefniadau corfforaethol yn cael perchennog, statws, cam nesaf ac amserlen ar gyfer diweddariad. Bydd plant a phobl ifanc yn cael gwybod beth sydd wedi newid, beth sydd heb newid a pham. Bydd y Cyngor yn cyhoeddi enghreifftiau hygyrch o "Dywedoch chi - Gwnaethom ni - Beth newidiodd".

Bydd fersiwn fer, hygyrch o'r Strategaeth ar gael i blant a phobl ifanc.

Adolygu'r Strategaeth

Bydd y Strategaeth Llais y Plentyn yn cael ei hadolygu'n gyfnodol er mwyn sicrhau ei bod yn parhau'n berthnasol, yn effeithiol ac yn adlewyrchu disgwyliadau statudol, blaenoriaethau corfforaethol a phrofiadau plant a phobl ifanc.

